WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Archwilio 2017 – **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 256A2017

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Mark Jones, Amanda Hughes ac Andy Bruce.

# Cynnwys


Cynllun Archwilio 2017

Crynodeb 4

Archwilio ariannol 4

Archwilio perfformiad 7

Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen 10

Datblygiadau i'm gwaith archwilio yn y dyfodol 12

Atodiadau

Atodiad 1 – priod gyfrifoldebau 13

Atodiad 2 – gwaith perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo yn amlinelliad archwilio y llynedd 16

Atodiad 3 – astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 17

Atodiad 4 – datblygiadau eraill yn y dyfodol 19

# Cynllun Archwilio 2017

## Crynodeb

1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol, ac sy'n bodloni fy ymrwymiadau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- archwilio eich datganiadau ariannol ac ardystio pa un a ydynt yn 'wir a theg';
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni eich dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

2 Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

3 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

4 Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwilio ariannol

5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch'.

6 Rwyf hefyd yn ystyried a yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac yn adrodd ar sail eithriadau os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion. Rwyf hefyd yn gyfrifol am archwilio cyfrifon Cronfa Bensiwn Diffoddwyr.

7 Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: fy null archwilio




8 Yn Arddangosyn 2 disgrifir y risgiau o gamddatgan perthnasol a nodwyd yn fy ngwaith archwilio hyd yma, ynghyd â chrynodeb yr o'r gwaith yr wyf yn bwriadu ei gyflawni er mwyn ymdrin â'r risgiau hynny.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Ceir risg nad yw prif systemau a rheolaethau ariannol yr Awdurdod wedi'u dylunio, nac yn gweithredu'n effeithiol, i atal a chanfod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. | Byddwn yn adolygu'r prif reolaethau i gefnogi cynhyrchu cyfrifon manwl gywir, gan gynnwys y brif system gyfrifyddu, gweithdrefnau cau'r cyfrifon a, lle bo angen, y systemau sydd wrth wraidd y rheiny. |
| Ceir risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol yn sgil gwall neu hepgor trafodion, balansau a datgeliadau. | Byddwn yn cynnal rhaglen o brofion archwilio i ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn rhan o'n gwaith cynllunio ac yn adolygu'r datganiadau ariannol drafft. |
| Ceir risg nad yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n unol â Chod Ymarfer 2016-17 ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Cod).<br>Ceir nifer o newidiadau sylweddol ar gyfer 2016-17, gan gynnwys gofyniad am Ddadansoddiad o Wariant a Chyllid newydd yn ychwanegol at ddadansoddiad diwygiedig o wariant yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfun (CIGC).<br>Bydd hefyd yn ofynnol i ailddatgan CIGC y llynedd (2015-16). | Byddwn yn:<br>• adolygu arferion a datgeliadau cyfrifyddu'r Awdurdod er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer a chanllawiau eraill perthnasol. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mae'r ymdriniaeth gyfrifyddu ar gyfer eiddo, peiriannau a chyfarpar yn gymhleth, gan gynyddu'r risg o wall neu hepgoriad yn y datganiadau ariannol.<br>Yn 2015-16, mynegais bryder nad oedd y gofrestr asedau yn cynnwys digon o fanylion ynghylch cyfarpar TG a chyfarpar gweithredol, ac argymhellais y dylai'r Awdurdod:<br>• adolygu ei gofrestr asedau er mwyn iddi gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, sydd yn bodloni gofynion y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u sefydlu yn llawn, ac yn ei gwneud hi'n bosibl i baratoi ac archwilio'r datganiadau ariannol blynyddol; a<br>• gweithredu proses gadarn fel bod y Tîm Cyllid yn cael gwybod fel mater o drefn am bob achos o waredu asedau cyfarpar.<br>Hefyd, yn 2016-17, dechreuwyd defnyddio Cyd-ganolfan y Gwasanaeth Ambiwlans a'r Gwasanaeth Tân yn Wrecsam, sydd yn golygu bod angen ailbrisio'r ganolfan. Mae hyn hefyd yn wir yn achos gorsaf dân Wrecsam fydd, yn ôl a ddeallwn, yn cael ei chadw fel ased i'w gwerthu ar ddyddiad y fantolen. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfrifyddu a datgelu eiddo, peiriannau a chyfarpar er mwyn sicrhau y rhoddir cyfrif amdanynt yn unol â safonau cyfrifyddu perthnasol.<br>Bydd fy nhîm archwilio hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod wrth ddiweddaru'r gofrestr ased ar gyfer cyfarpar TG a gweithredol, ac er mwyn sicrhau bod yr holl achosion o waredu asedau wedi'u nodi. |
| Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio ar gyfer cyflogeion mewn/heb iwnifform. Mae'r ymdriniaeth gyfrifyddu ar gyfer y cynlluniau hyn yn gymhleth, gan gynyddu'r risg o wall neu hepgoriad yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn adolygu'r trefniadau ar gyfer cyfrifyddu a datgelu'r cynlluniau pensiwn er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfrifyddu perthnasol. |
| Ceir risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol.<br>[ISA 240, Paragraffau 31 i 33.] | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; ac<br>• yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol a ganfyddir drwy'r gwaith archwilio nad ydynt, o bosib, yn rhan o fusnes arferol. |

9 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar gywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddiaf i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi yn fy adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub cyn cwblhau'r archwiliad.

10 At ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (5% o berthnasedd) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.


11 Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- bod y wybodaeth a ddarperir i ategu'r datganiadau ariannol yn amserol, o'r ansawdd disgwyliedig a'i bod wedi'i hadolygu at ddibenion sicrwydd ansawdd;
- bod safleoedd a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad yn effeithlon;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
- bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

# Archwilio perfformiad

12 Dangosir elfennau fy ngwaith archwilio yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: elfennau o'm gwaith archwilio perfformiad



13 Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn mynd drwy gyfnod o newid na welwyd mo'i debyg o'r blaen. Mae effeithiau caledi yn amlwg o hyd. Bydd yn ofynnol i gyrff a archwilir fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fis Ebrill 2016, ac mae diwygiadau i lywodraeth leol o dan ystyriaeth o hyd.

14 Ar gyfer 2017-18, bydd y Mesur ar waith o hyd, a bydd angen i mi ystyried p'un a fydd awdurdodau yn cyflawni eu dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o hyd. Yr her i mi yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd yw cydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â'r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon a chymesur sy'n seiliedig ar risg.

15 Yn ystod 2016, ymgynghorais â chyrff gwasanaeth cyhoeddus i drafod y ffordd orau o gyflawni fy amrywiol ddyletswyddau gan sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth drwy:

- roi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a'u gwarchod;
- rhoi cipolwg defnyddiol o'r graddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth i ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

16 Yn ogystal â'r rhaglen flynyddol o waith archwilio ac asesu, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymgymryd â rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na ffioedd lleol. Mae Arddangosyn 4 yn crynhoi sefyllfa bresennol y rhaglen gyfredol o astudiaethau. Mae'r astudiaethau hyn yn arwain yn bennaf at adroddiad cenedlaethol a ategir gan allbynnau dysgu ar y cyd ac arfer da yn hytrach nag adroddiadau lleol. Caiff canfyddiadau lleol, lle bo hynny'n berthnasol, eu cynnwys mewn gwaith asesu gwelliant a'u cofnodi mewn adroddiadau gwella blynyddol yn dibynnu ar amseriad a ffocws y casgliadau.

Arddangosyn 4: astudiaethau llywodraeth leol

| Astudiaeth | Statws |
|---|---|
| **Astudiaethau 2015-16** | |
| Diogelwch Cymunedol | Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2016 |
| Cynhyrchu incwm a chodi tâl | Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016 |
| Y modd y mae cynghorau yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector | Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017 |
| **Astudiaethau 2016-17** | |
| Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli'r Galw | Gwaith Maes |
| Comisiynu Strategol | Gwaith Maes |
| Gwella Llesiant drwy Addasu Tai | Gwaith Maes |

17 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2017-18 yn cynnwys:

Arddangosyn 5: rhaglen archwilio perfformiad

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Gwaith archwilio ac asesu gwelliant yn cynnwys:<br>• archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant<br>• mynd ar drywydd cynigion gwella/ argymhellion lleol a chenedlaethol<br>• prosiectau lleol seiliedig ar risg – i'w cadarnhau<br>• Adroddiad Gwella Blynyddol | • ardystiad sylfaenol y cynllun gwella a'r adroddiad blynyddol<br>• adolygiad dilynol o sampl o gynigion gwella/argymhellion lleol a chenedlaethol<br>• briffiau prosiect a rennir cyn cychwyn gwaith prosiect<br>• crynodeb o waith archwilio perfformiad a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn |
| Asesiad sylfaenol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD) | Sylwebaeth Blwyddyn Un: Byddwn yn casglu tystiolaeth ynghylch sut mae'r 44 corff yn dechrau ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn nodi enghreifftiau o arfer nodedig sy'n dod i'r amlwg. Caiff y gwaith ei lunio i gefnogi gwelliant a llywio gwaith archwilio yn y dyfodol o dan y Ddeddf. |
| Adolygiad Craffu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith pwyllgorau craffu, gan gynnwys pwyllgorau craffu Byrddau Gwasanaethau Lleol, gan hwyluso gwelliant ac ymdrechion i rannu arfer da. |

18 Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a gynhwyswyd yng Nghynllun Archwilio'r llynedd, sydd naill ai'n dal ar y gweill neu y'u disodlwyd gan brosiectau eraill a gytunwyd â chi, wedi'u nodi yn Atodiad 2.

# Y ffi, y tîm archwilio a’r amserlen

## Ffi

19 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. O dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff y ffioedd a godir fod yn uwch na’r gost lawn sy’n gysylltiedig â chyflawni’r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Pennir y cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno’n llawn. Ni fu unrhyw newid yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2017 a bydd fy nhimau archwilio yn parhau i geisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau ac maent yn awyddus i weithio gyda chi mewn modd adeiladol yn hyn o beth.

20 Nodir eich ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2017 yn Arddangosyn 6. Mae’r amcangyfrif o ffi eleni am archwilio’r cyfrifon, sef £45,000, yn seiliedig ar fy Nghynllun Ffioedd. Seiliwyd yr amcangyfrif hwn ar ganolrif yr Awdurdod Tân (gweler tudalen 19 am y Cynllun Ffioedd cysylltiedig ym mharagraff 22).

### Arddangosyn 6: y ffi archwilio

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Y Ffi Wirioneddol y Llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon[2] | 45,000 | 50,000 |
| Gwaith archwilio perfformiad:[3] | 15,274 | 15,300 |
| Gwaith peilot Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015[4] | 0 | Dd/G |
| Sylwebaeth Blwyddyn Un Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015[4] | 1,953 | Dd/G |
| Cyfanswm y ffi | 62,227 | 65,300 |

Nodiadau:

[1] Nid yw’r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, oherwydd ni chaiff TAW ei chodi arnoch mwyach.

[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Hydref 2017.

[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018.

[4] Gweler y datblygiadau yn y dyfodol isod.

21 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â’r Awdurdod yn gyntaf.

22 Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a’r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Tîm archwilio

23 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Jane Holownia | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320565 | jane.holownia@archwilio.cymru |
| Mark Jones | Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 320631 | mark.jones@archwilio.cymru |
| Amanda Hughes | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07969 919986 | amanda.hughes@archwilio.cymru |
| Dave Catherall | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 07870 265458 | david.catherall@archwilio.cymru |
| Andy Bruce | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07919 164779 | andy.bruce@archwilio.cymru |

24 Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar yr Awdurdod a'ch swyddogion. At hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau y mae angen i mi dynnu eich sylw atynt.

## Amserlen

25 Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Awdurdod sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: amserlen

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wneir | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2017** | Ionawr – Mawrth 2017 | Mawrth 2017 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Chwefror i Medi 2017 | Medi 2017<br><br>Medi 2017 |
| **Gwaith perfformiad**:<br>Bydd y rhaglen yn cael ei chwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol (gweler paragraffau 13 i 18) | Ebrill 2017 – Mawrth 2018 | Mehefin 2018 |
| Adroddiad Gwella Blynyddol | Drwy gydol y flwyddyn | Mehefin 2018 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: gwaith treialu | I'w gadarnhau | Dd/G |

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wneir | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: sylwebaeth blwyddyn un | I'w gadarnhau | Dd/G |

# Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

26 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) i rym ym mis Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad, cyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol, ar sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant, ac yn cymryd camau i'w cyflawni. Yn 2017, byddaf yn ymgymryd â'm darn cyntaf o waith o dan y Ddeddf - Sylwebaeth Blwyddyn Un - er mwyn deall sut mae cyrff yn dechrau ymateb i'r gofynion. Byddaf hefyd yn cydweithio â nifer fach o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y sector llywodraeth ganolog, i ddatblygu dull archwilio sy'n ystyrlon ac yn gymesur ac y gellir ei fabwysiadu yn y dyfodol.

## Arall

27 Mae manylion am ddatblygiadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol allweddol a seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, ar gael yn Atodiad 4.

28 Nod rhaglen Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yw helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy nodi a rhannu arfer da. Mae seminarau'r Gyfnewidfa yn dod ag amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus ynghyd i rannu eu profiadau ymarferol a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt mewn meysydd lle byddai'n fuddiol rhannu arfer da, yn ein barn ni. Cynhelir y seminarau hyn yn rhad ac am ddim i gyfranogwyr. Mae'r digwyddiadau sydd ar y gweill yn cynnwys:

- yr heriau a wynebir gan wasanaethau a ariennir yn gyhoeddus, ac a ddarperir yn anuniongyrchol yng Nghymru
- sut i reoli risg mewn perthynas â newid sefydliadol, trawsnewid gwasanaethau ac arloesedd
- mesur canlyniadau: pwy sy'n ei wneud a sut (yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio cyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad naratif â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Yn ôl Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 y mae'n ofynnol i mi asesu a yw'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol yr Awdurdod, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystio hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig at unigolion o fewn yr Awdurdod y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod yr wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae’r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw’r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â’i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal archwiliadau i nodi pa un a yw’r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i’r awdurdodau a’r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi’r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo yn amlinelliad archwilio y llynedd

Arddangosyn 9: gwaith perfformiad yn yr amlinelliad o archwiliad y llynedd sy’n dal i fynd rhagddo

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adolygiad rheoli asedau ar gyfer tir, adeiladau a rhannu cyfleusterau | Cwblhawyd | I’w adrodd yn lleol ac yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol – Mai 2017 |

# Atodiad 3

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan yr Awdurdod hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf, y bydd rhai ohonynt yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac o bosib yn cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Cefnogir yr astudiaethau hyn gan gronfeydd a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus ac o bosibl i hwyluso trefniadau craffu pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Arddangosyn 10 yn trafod yr holl waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir isod, mae'n bosibl y byddaf yn penderfynu paratoi adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn a fydd yn crynhoi gwaith archwilio lleol neu a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau archwiliadau ymatebol.

Rwyf hefyd yn ymgynghori ar hyn o bryd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar gynnwys nifer o astudiaethau gwerth am arian newydd yn fy rhaglen, i'w cyflwyno yn ystod 2017-18. Er enghraifft, rwyf eisoes wedi hysbysu'r pwyllgor fy mod, yn dilyn fy adroddiad ym mis Gorffennaf 2016 ar drefniadau Llywodraeth Cymru i ariannu Kancoat Ltd, yn ystyried cynnal archwiliad ehangach o gymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau.

Cyflwynir adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

Arddangosyn 10: astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

| **Pwnc** | **Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig (fel y mae ar 3 Ionawr 2017)** |
|---|---|
| Apwyntiadau dilynol i gleifion allanol | Chwefror 2017 |
| Llywodraethu a goruchwylio cyrff hyd braich) | Chwefror 2017 |
| Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru o gyllid a chyflawni sefydliadau addysg bellach | Mawrth 2017 |
| Cylchffordd Cymru | Chwefror 2017 |
| Comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys | Chwefror 2017 |
| Rhaglen addysg ac ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o'r dirwedd caffael cyhoeddus | Ebrill i Orffennaf 2017 |
| Rheoli gwastraff (atal gwastraff) | Ebrill i Orffennaf 2017 |

| Pwnc | Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig (fel y mae ar 3 Ionawr 2017) |
|---|---|
| Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)[2] | Ebrill i Orffennaf 2017 |
| Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (cynllunio tymor canolig integredig) | Ebrill i Orffennaf 2017 |
| Rhaglen Cefnogi Pobl | Ebrill i Orffennaf 2017 |
| Gwasanaethau gwybodeg GIG Cymru | Ebrill i Orffennaf 2017 |
| Mynediad i wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol | Awst i Hydref 2017 |
| Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiadau dilynol)) | Awst i Hydref 2017 |
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad | I'w gadarnhau[3] |

[2] Yn ogystal â'r gwaith ar atal gwastraff ac ailgylchu trefol, byddaf yn bwrw ymlaen ag adolygiad o seilwaith trin gwastraff ar ddechrau 2017.

[3] Mae fy rhaglen o waith arfer da wedi cynnwys prosiect sy'n ystyried gwaith newid ymddygiad ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyfleoedd i wella arfer, cyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion a sicrhau gwell gwerth am arian. Rwyf yn rhagweld o hyd y bydd yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir drwy'r gwaith hwn yn helpu i lunio adroddiad ar y pwnc hwn, er nad yw'r adroddiad hwn yn debygol o fod ar ffurf adroddiad archwilio traddodiadol ac nad yw'r cynlluniau ar gyfer ei lunio wedi'u cadarnhau eto.

# Atodiad 4

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### Newidiadau allweddol sydd ar ddod i'r Safon Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS)

Arddangosyn 11: Newidiadau allweddol sydd ar ddod i'r IFRS

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| **IFRS 9 Offerynnau ariannol** | 2018-19 | Bydd IFRS 9 Offerynnau ariannol yn disodli IAS 39 ac mae'n cynnwys dull newydd o ddosbarthu a mesur asedau ariannol yn seiliedig ar egwyddorion. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg lleihau gwerth newydd ar gyfer asedau ariannol sy'n seiliedig ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion yr eir iddynt. Bydd hyn yn golygu y gellir cydnabod colledion credyd disgwyliedig yn gynharach ac yn fwy amserol. Caiff bron yr holl ofynion cyfrifyddu ar gyfer rhwymedigaethau ariannol eu dwyn ymlaen heb eu newid o IAS 39. |
| **IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid** | 2018-19 | Mae IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor craidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r refeniw a gydnabyddir ddangos trosglwyddiad nwyddau neu wasanaethau a addawyd i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r corff yn disgwyl bod ganddo hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn galw am ddatgeliadau mwy cynhwysfawr nag sydd eu hangen ar hyn o bryd. |
| **IFRS 16 Prydlesi** | 2019-20 | Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon gyfredol ar brydlesi, sef IAS 17. Y prif newid yw ei fod yn cael gwared i raddau helaeth ar y gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a chyllid i ddeiliaid prydles drwy gyflwyno un model cyfrifyddu ar gyfer deiliaid prydles sy'n eu gwneud yn ofynnol iddynt gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles â thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Yn sgil hyn, caiff pob prydles ei chydnabod ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor 'hawl i ddefnyddio' gyda rhwymedigaeth gyfatebol am renti yn y dyfodol. Mae hwn yn newid mawr i drefniadau cyfrifyddu o ran deiliaid prydles. |

## Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a chaiff adnoddau eu rhannu ar-lein.

Mae digwyddiadau'r Gyfnewidfa yn canolbwyntio ar reolaeth ariannol, staff y sector cyhoeddus a llywodraethu, ymhlith pethau eraill.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau'r Gyfnewidfa yn y dyfodol ac allbynnau seminarau blaenorol, ar gael ar adran y Gyfnewidfa Arfer Da ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y cyfnod cofrestru ar gyfer pob digwyddiad yn agor ddeufis cyn y digwyddiad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru